## PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 18 Tachwedd 2015 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ann Davies, Stuart Davies, Alice Jones a Jason McLellan (Cadeirydd), a Paul Whitham (Aelod Lleyg).

Roedd y Cynghorwyr Bobby Feeley, Martyn Holland a Meirick Ll. Davies yn bresennol fel arsyllwyr

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Pennaeth Archwilio Mewnol (IB), Prif Swyddog Cyllid (RW), Dirprwy Swyddog Monitro/ Cyfreithiwr (LJ), Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (LG), Rheolwr Gwybodaeth Corfforaethol (CG) , Swyddog Perfformiad Effeithiolrwydd Ysgolion - Uwchradd (JM), Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru (GB) a Gweinyddwr y Pwyllgor (SLW)

Hefyd yn bresennol - Pennaeth, Ysgol Mair, Y Rhyl - Stuart Plunkett a
Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Mair, Y Rhyl - Gill Greenland

### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Peter Duffy

### 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim Datganiad o Fuddiant.

### 3 MATERION BRYS

Dim.

### 4 COFNODION

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 28 Medi, 2015.

Tudalen 11 – Eitem 8 Eglurodd y Prif Swyddog Cyllid bod y cyfrifon drafft wedi eu cylchredeg i aelodau’r pwyllgor er gwybodaeth ac nid fel eitem ar yr agenda.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 28 Medi 2015 fel cofnod cywir.*

**RHAN II**

Cynigwyd gan Y Cynghorydd Stuart Davies, eiliwyd gan Aelod Lleyg Paul Whitham y dylid symud yr eitemau canlynol i RAN II - Eitemau Cyfrinachol.

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Penderfynwyd o dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, i wahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau a ganlyn, ar y sail ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu, fel y'i diffinnir ym mharagraffau 14 a 18, Rhan 4, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**5 YSGOL MAIR, Y RHYL – ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynodd Pennaeth yr Adain Archwilio Mewnol adroddiad cyfrinachol (a gylchredwyd o flaen llaw) ar yr adroddiad Archwilio Mewnol diweddar ar Ysgol Mair, Y Rhyl a oedd wedi derbyn graddfa sicrwydd "Isel".

Hysbysodd Pennaeth yr Adain Archwilio Mewnol y Pwyllgor bod adroddiad yr Archwiliad Mewnol wedi ei gynnwys fel Atodiad 1. Nododd Atodiad 2 y cynnydd sydd wedi ei wneud hyd yma wrth roi'r Cynllun Gweithredu o fewn adroddiad yr Archwiliad ar waith. Nid oedd camau gweithredu wedi eu cymryd ar bob mater yn ystod yr ymweliad gan iddo gael ei gynnal yn ystod hanner tymor. Roedd cynnydd wedi ei wneud ar nifer o faterion ac roedd angen diweddariad ar y cynllun adfer.

Nid oedd y rhan fwyaf o'r materion a godwyd gennym yn ein hadroddiad yn anarferol i archwiliad ysgol, ac roedd cynnydd yn cael ei wneud i wneud y gwelliannau angenrheidiol, fel y dangosir yn Atodiad 2. Fodd bynnag, y prif bryder oedd sefyllfa ariannol yr Ysgol. Er bod cynllun adfer drafft yn ei le bellach, nid oedd hwn wedi ei gytuno arno eto ac roedd llawer o waith angen ei wneud eto, yn ogystal â thrafod ac ymgynghori cyn cytuno ar gynllun a'i roi ar waith.

O dan gynllun y Cyngor ar gyfer ariannu ysgolion, mae unrhyw ysgol mewn diffyg yn cael caniatâd i wneud cais am ddiffyg trwyddedig a dangos bod ganddynt gynllun i fod ag arian dros ben o fewn tair blynedd.

Ers cyhoeddi'r adroddiad archwilio, rydym wedi cynnal cyfarfod cynnydd gyda'r Pennaeth, Cadeirydd ac Is-gadeirydd Corff Llywodraethu'r Ysgol, Aelod Arweiniol y Cabinet ac uwch reolwyr i drafod yr adroddiad archwilio, cynllun gweithredu a'r cynnydd a wnaed wrth weithredu gwelliannau. Byddai cyfarfod pellach yn cael ei gynnal ar 7 Rhagfyr 2015.

Roedd y Pennaeth yn bresennol ac eglurodd i'r Pwyllgor y camau oedd yn cael eu cymryd yn unol â chynllun adfer er mwyn gwella materion. Roedd lles y plant yn flaenoriaeth a byddai hyn yn cael ei fonitro'n ofalus.

Yn y cyswllt hwn, diolchodd y Pwyllgor i'r Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr am fynychu'n cyfarfod.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:*

*(i) Yn nodi'r sicrwydd bod y cynllun gweithredu/adfer yn yr adroddiad yn cael ei roi ar waith yn effeithiol ac o fewn y terfynau amser y cytunwyd arnynt.*

*(ii) Yn cytuno y gellir dod â'r eitem yn ôl i'r cyfarfod Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol nesaf a gynhelir fis Ionawr er mwyn cael diweddariad ar y cynllun gweithredu/adfer.*

**6 Y DIWEDDARAF AR Y CYNLLUN ARIANNU PREIFAT**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Ariannol adroddiad cyfrinachol (a gylchredwyd o flaen llaw) ar roi terfyn ar y Cytundeb Prosiect ar gyfer Neuadd y Sir yn Rhuthun ac adeiladau eraill.

Hysbyswyd Aelodau bod y Cyngor wedi dod â Chytundeb Prosiect Menter Cyllid Preifat Neuadd y Sir i ben am resymau ariannol a gweithredol ym mis Mai 2015.

Roedd y Cyngor llawn wedi cymeradwyo arbedion cyllideb yn 2015/2016 ar y sail y byddai'r cytundeb Menter Cyllid Preifat yn cael ei ddirwyn i ben ac y byddai rheolaeth lawn o'r asedau yn cael eu pasio ymlaen i'r Cyngor. Roedd yr adroddiad yn crynhoi crynodeb o'r penderfyniad a'r cyd-destun a amlinellodd y penderfyniad gwreiddiol i fynd i gytundeb Menter Cyllid Preifat.

Cafwyd crynodeb o'r adroddiad gan y Prif Swyddog Ariannol, oedd yn cynnwys:-

- Amlinelliad o fodel ariannol y Fenter Cyllid Preifat
- Cyfanswm cost y Cytundeb
- Dod a'r Cytundeb i ben yn golygu taliad digolledu a oedd yn y pen draw yn well gwerth am arian i'r Cyngor
- Cyflwynwyd cyfrif terfynu'r cytundeb i'r Cyngor ar 7 Medi 2015.
- Manylion y digolledion terfynol a dalwyd
- Cyfeiriad at y gefnogaeth a'r cyngor allanol a ddefnyddiwyd mewn meysydd arbenigol yn ystod y broses gymhleth, a'r
- broses ymgynghori oedd wedi ei dewis.

Diolchodd y Pwyllgor i'r Prif Swyddog Cyllid a'i dîm am eu gwaith ar y prosiect.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:*

*(i) yn derbyn ac yn nodi'r adroddiad*

*(ii) yn cytuno y dylid bwydo'r Terfyniad Cytundeb Prosiect Menter Cyllid Preifat i Weithdai Cyllideb y dyfodol.*

Yn y cyswllt hwn, dychwelodd y cyfarfod i **RAN I**

## 7 PROSES Y GYLLIDEB 2015/16

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid adroddiad (a gylchredwyd o flaen llaw) a oedd yn rhoi diweddariad ar y broses i gyflawni'r gyllideb refeniw ar gyfer 2016/17.

Cyflwynwyd y cynnydd diwethaf gyda'r broses gosod cyllideb i Weithdy Cyllideb yr Aelodau ar 26 Hydref 2015, ac roedd manylion y cyflwyniad wedi ei gynnwys o fewn yr adroddiad. Roedd y rhagdybiaethau cynllunio cyllideb diweddaraf wedi eu trafod a'u crynhoi a'r bwlch yn y gyllideb yn rhagdybio setliad wedi ei osod ar -4%. Roedd cynigion yn dod i gyfanswm o oddeutu £2 miliwn wedi eu hadnabod ar gyfer eu cynnwys yng Ngham 5 oedd i'w gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo ym mis Rhagfyr.

Fel arfer cyhoeddir y Setliad Drafft ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru yn gynnar ym mis Hydref, ond ni fyddai'n cael ei gyhoeddi tan 9 Rhagfyr gan na chyhoeddwyd Adolygiad Gwariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig tan 25 Tachwedd. Byddai'r Adolygiad Gwariant yn penderfynu ar lefel y Grant Bloc i Gymru. Byddai cyhoeddiad hwyr y Setliad Drafft yn golygu y byddai'n rhaid newid yr amserlen gyllidebu, gan fod yn rhaid i'r Cyngor osod ei chyllideb mewn pryd i ganiatáu cynhyrchu a dosbarthu biliau Treth Cyngor ym mis Mawrth.

Llythyr oedd Atodiad 2 oddi wrth Lywodraeth Cymru/Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn amlinellu'r amserlen ac yn nodi rhai o'r materion. Mae'r amserlen yn peri rhai risgiau os yw gwerthoedd y setliad yn newid yn sylweddol neu os oes problemau wrth gytuno ar y gyllideb yn genedlaethol, ac roedd hyn yn cael ei adolygu'n gyson.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad ar y datblygiadau diweddaraf.*

## 8 COFRESTR RISG CORFFORAETHOL

Cyflwynodd Rheolwr y Tîm Cynllunio Strategol adroddiad (a gylchredwyd o flaen llaw) ar reolaeth y Risg Corfforaethol ac adolygiad Hydref 2016 i'r Gofrestr Risg Corfforaethol.

Eglurodd Rheolwr y Tîm Cynllunio Strategol sut y byddai'r Gofrestr Risg Corfforaethol yn cael ei monitro a'i rheoli Mae'n cynrychioli adroddiad blynyddol ar gyfer y Pwyllgor Llywodraeth Corfforaethol er mwyn ystyried sut y mae'r Risg Corfforaethol yn cael ei reoli o fewn yr Awdurdod.

Cytunwyd ar fersiwn wedi ei ddiweddaru'n swyddogol o'r Cofrestr Risg Corfforaethol gan Gyfarfod Briffio'r Cabinet yn Hydref, 2015, a byddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad ar 10 Rhagfyr 2015. Hysbysodd yr adroddiad y Pwyllgor am adolygiad o fethodoleg rheoli'r Risg Corfforaethol o safbwynt Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol.

Adolygwyd y Gofrestr yn swyddogol ddwywaith y flwyddyn gan y Cabinet a'r Tîm Gweithredol Corfforaethol. Byddai'r Tîm Gweithredu Corfforaethol yn cael gwybod am unrhyw risgiau cynyddol neu newydd fel byddent yn cael eu hadnabod, a byddai'r Tîm Gweithredu Corfforaethol yn penderfynu os dylid cynnwys risg yn y Gofrestr. Yn dilyn adolygiad ffurfiol, byddai'r ddogfen sydd wedi'i hadolygu yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad. Byddai'r gweithredoedd a nodir er mwyn delio â Risgiau Corfforaethol yn cael eu cynnwys mewn Cynlluniau Gwasanaethau, lle y bo'n briodol, a fyddai'n galluogi i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad fonitro'r cynnydd. Dylid amlygu unrhyw faterion perfformiad mewn perthynas â darparu'r digwyddiadau fel rhan o broses Herio Perfformiad Gwasanaethau.

Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol ein bod yn ystyried ein gwaith gan ddefnyddio pum egwyddor datblygu cynaliadwy, a bydd angen adolygu'r modd y byddwn yn ystyried a rheoli risg yn unol â'r ddeddfwriaeth newydd. Bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal fel rhan o weithrediad y Ddeddf newydd sy'n dod i rym ym mis Ebrill 2016, a bydd yr aelodau'n cyfrannu'n llawn at hyn.

Roedd adroddiad i fod i gael ei gyflwyno i gyfarfod Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio ym mis Rhagfyr i gyflwyno sut y gallai Archwilio ymgorffori gofynion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol i'w gwaith.

Yn ystod trafodaethau, mynegodd Aelodau bryderon ynghylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chafwyd cadarnhad bod nifer o reolaethau yn eu lle yn cynnwys nifer o gamau gweithredu. Roedd cydweithrediad rhwng y Bwrdd Iechyd a Chyngor Sir Ddinbych yn digwydd yn gyson er mwyn lleihau'r effaith ar Sir Ddinbych.

Sicrhaodd Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd bod y tri mater a godwyd gan Swyddog y Bwrdd Iechyd a fynychodd gyfarfod Cyngor diweddar bellach oll o fewn Rhaglenni Gwaith i'r Dyfodol Archwilio. Mae'r rhain fel a ganlyn:

(i) Gofal Sylfaenol – 17 Rhagfyr 2015 Pwyllgor Archwilio Cymunedau
(ii) Datblygiadau'r Dyfodol – Ysbyty'r Royal Alexandra, Y Rhyl – 26 Tachwedd, 2015 Pwyllgor Archwilio Partneriaethau
(iii) Adroddiad HASCASS – 25 Chwefror 2016 Pwyllgor Archwilio Partneriaethau.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn nodi sut y rheolir Risg Gorfforaethol o fewn yr Awdurdod*

## 9 YMGYNGHORIAD CENEDLAETHOL YNGHYLCH RHYDDID GWYBODAETH

Cyflwynodd y Rheolwr Gwybodaeth Corfforaethol adroddiad (a gylchredwyd o flaen llaw) a oedd yn nodi manylion ymateb tebygol Sir Ddinbych i ymgynghoriad ar y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Amlinellodd y Rheolwr Gwybodaeth Corfforaethol fwriadau a darpariaethau’r Ddeddf. Roedd cylch gorchwyl y Comisiwn Annibynnol ar Ryddid Gwybodaeth wedi ei osod gan Swyddfa’r Cabinet. Roedd manylion y rôl a chylch gwaith y Comisiwn i adolygu Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 wedi ei ddarparu.

Roedd manylion am yr ymateb, a goladwyd gan Sir Ddinbych i Gwestiwn 6, a oedd wedi ei ystyried i gynrychioli’r mater mwyaf perthnasol ar gyfer y Cyngor, wedi ei gynnwys gyda’r adroddiad.

Roedd y Cyngor wedi darganfod bod sawl cais yn golygu oriau lawer o waith. Yn ogystal, gall mynd ati i olygu dogfennau gymryd sawl awr a hyd yn oed rai dyddiau mewn sawl achos, ond ar hyn o bryd, nid yw'r Ddeddf yn caniatáu inni gynnwys y gwaith hwn o fewn y terfyn amser.

Eglurwyd y byddai Cyngor Sir Ddinbych yn annog diwygio'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i gynnwys darpariaeth fel y gall Awdurdodau Cyhoeddus godi ffi mewn enw o tua £20, am bob cais. Cynghorir hefyd bod y terfyn addas (adran 12) yn cael ei leihau o 18 awr i 10 awr, ac yn cynnwys yr amser a dreulir ar olygu dogfennau. Credwyd y byddai cyflwyno'r newidiadau hyn yn lleihau’r baich ar Awdurdodau Cyhoeddus i lefel fwy ymarferol a chymesur tra bo hawliau statudol y cyhoedd i weld gwybodaeth yn parhau.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar y sylwadau uchod, bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn nodi ymateb arfaethedig y Cyngor i'r ymgynghoriad.*

**Ar y pwynt hwn (11.55 am) cafwyd egwyl o 10 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 12.05pm**

## 10 CYFANSODDIAD Y CYNGOR

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd adroddiad (a gylchredwyd o flaen llaw) oedd yn rhoi diweddariad ar fabwysiadu cyfansoddiad model newydd i Gymru yn y dyfodol.

Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn gofyn bod unrhyw newidiadau a fwriedir i Gyfansoddiad y Cyngor yn cael eu hystyried yn gyntaf cyn ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor Llawn.

Cyfeiriodd Pennaeth Y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaeth Democrataidd at adroddiad blaenorol ym mis Gorffennaf 2015 a oedd yn ystyried newidiadau arfaethedig i Erthyglau'r Cyfansoddiad, cynigion ynglŷn â dirprwyo penderfyniadau i aelodau'r Cabinet a newidiadau i'r Rheolau Cyflogi Swyddogion. Roedd yr adroddiad hwn yn ceisio barn yr aelodau ar newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Dirprwyo Swyddogion. Mae'r Cynllun arfaethedig, Atodiad 1, yn adlewyrchu newidiadau yn strwythur uwch reolwyr y Cyngor a’r trosglwyddiad mewn

cyfrifoldebau sydd wedi digwydd o ganlyniad. Byddai cymeradwyaeth y Cyngor o'r Cynllun yn cael ei geisio ym mis Rhagfyr er mwyn sicrhau bod dirprwyo swyddogaethau gweithredol wedi eu hawdurdodi'n addas.

Roedd Gweithgor y Cyfansoddiad wedi ystyried y codau a'r protocolau a gynhwysir yn Rhan 5 y Cyfansoddiad ym mis Hydref. Roedd y Gweithgor wedi ystyried yn fanwl y Protocol ar berthnasau Swyddog/Aelodau, ac wedi cynnwys fersiwn ddiwygiedig o'r protocol fel Atodiad 2 i'r adroddiad.

Roedd y Pwyllgor eisoes wedi ystyried newidiadau posib i'w gylch gorchwyl ei hun, megis y meysydd gwaith y gellid eu trosglwyddo i'r Pwyllgor Safonau. Yn y pen draw, barn y Pwyllgor oedd nad oedd am drosglwyddo meysydd gwaith i'r Pwyllgor hwnnw. Fodd bynnag, trafodwyd materion megis rheoli risg a lle'r oedd pryder y byddai modd dyblygu gwaith o safbwynt rôl y Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Archwilio. Mae cylch gorchwyl diwygiedig arfaethedig ar gyfer y Pwyllgor hwn ynghlwm fel Atodiad 3, sy'n darparu fersiwn wedi'i diweddaru ac yn adlewyrchu'r trafodaethau hynny.

Byddai Gweithdy Aelodau yn briffio'r aelodaeth ehangach ar y newidiadau a ystyriwyd gan y Pwyllgor ac yn ceisio eu barn, cyn adrodd i'r Cyngor yn Chwefror 2016 er mwyn cael cymeradwyaeth i'r Cyfansoddiad diwygiedig.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn nodi cynnwys yr adroddiad cyn ymgynghori'n ehangach gydag Aelodau*

**11 RHEOLI'R FFLYD GORFFORAETHOL - ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynodd Pennaeth yr Adain Archwilio Mewnol adroddiad (a gylchredwyd o flaen llaw) a hysbysodd y Pwyllgor am Archwiliad Mewnol diweddar ar Reoli Fflyd Gorfforaethol a gafodd sgôr sicrwydd "Isel".

Cyflwynodd Pennaeth yr Adain Archwilio Mewnol yr adroddiad oedd yn ceisio barn y Pwyllgor ar adroddiad yr Archwiliad Mewnol, a chytundeb ar y sicrwydd bod y Cynllun Gweithredu o fewn yr adroddiad yn cael ei weithredu yn effeithlon o fewn yr amserlen a gytunwyd arni.

Roedd adroddiad llawn yr Archwiliad Mewnol wedi ei gynnwys fel Atodiad 1, ac roedd y materion allweddol oedd yn codi o'r adroddiad yn cynnwys:-

- Polisi Cludiant sydd wedi mynd heibio'i ddyddiad;
- Yr angen i wella cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth
- Angen gwelliannau i rai prosesau, gweithdrefnau a pholisïau o fewn y gwasanaeth
- Angen ystyried o ddifrif buddsoddi mewn system reoli fflyd newydd
- Gwelliannau angenrheidiol pan fydd gweithwyr yn cael eu penodi, er mwyn sicrhau bod eu cymhwysedd i yrru yn cael ei wirio yn ystod y broses recriwtio
- Sicrhau bod gwersi a ddysgir bob amser yn cael eu hystyried mewn achos o ddigwyddiadau a methiannau agos, a

- Gwelliannau sydd eu hangen i reoli tanwydd.

Cadarnhawyd bod “cyfarfod cynnydd” wedi ei gynnal cyn cyhoeddi’r adroddiad archwiliad terfynol gyda Phennaeth Gwasanaethau Phriffyrdd ac Amgylcheddol, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol, Aelod Arweiniol y Cabinet ac uwch reolwyr, i drafod yr adroddiad archwilio a chytuno ar Gynllun Gweithredu.

***PENDERFYNWYD** :-*

- *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad ar y datblygiadau diweddaraf.*
- *y byddai diweddariad llafar yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol nesaf ym mis Ionawr 2016 ac y byddai cyflwyniad ysgrifenedig yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Mawrth.*

## 12 HUNANASESIAD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Gohiriwyd yr eitem hon tan y cyfarfod a gynhelir ar 27 Ionawr 2016.

## 13 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (a gylchredwyd o flaen llaw) i’w ystyried.

27 Ionawr 2016:-

(i) Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol – Adroddiad Hunanasesiad
(ii) Adroddiad Blynyddol AGGCC (i’w gadarnhau).
(iii) Rhan II - Adroddiad Archwilio Mewnol - Ysgol Mair
(iv) Adroddiad Archwilio Mewnol - Rheoli Fflyd Gorfforaethol (adroddiad llafar)

23 Mawrth 2016:-

(i) Adroddiad Archwilio Mewnol - Rheoli Fflyd Gorfforaethol (adroddiad ysgrifenedig)

***PENDERFYNWYD** yn amodol ar yr uchod bod y Pwyllgor yn cymeradwyo’r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.15pm.**